**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**
**HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD GORCHYMYN PARHAOL**

**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYFUNO RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 17) 2025**

**DARPARIAETH A DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I ORCHMYNION TRAFFIG O FEWN CYMUNEDAU AMRYWIOL YN SIR FYNWY**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Cyngor Sir Fynwy** o Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd fel a ganlyn:

**EFFAITH Y GORCHYMYN:**

- Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar Heol Redbrook , A466, Trefynwy
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder o 40mya a 30mya ar yr A472, Y Rhadyr, Brynbuga
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y B4233, Yr Hendre
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya yng nghyffiniau Cyffordd B4233/B4347, Rockfield
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar y B4233, Trefynwy i Rockfield
- I gyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar y B4293, Llanfihangel Troddi
- I gyflwyno terfyn cyflymder o 50mya ar y B4293, Llanfihangel Troddi
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Heol Llanfihangel Troddi, Rhaglan
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Heol Staunton, A4136
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar y B4235, Cas-gwent i Fynydd Bach
- Cyflwyno terfynau cyflymder byffer 30mya ar y B4596, Llancaio
- Cyflwyno Terfyn cyflymder 20mya ar Common Road, Llanfihangel Troddi
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Conway Drive, Cas-gwent
- I ddiddymu'r terfyn cyflymder presennol o 20mya ar yr A466, Llandogo
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar y lôn o'r B4293 i Park House, Tir Comin Llanddinol
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar Heol Crug, Porthsgiwed
- Cyflwyno terfynau cyflymder 30mya a 40mya ar y B4235, Gwernesni
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar yr A466, Tyndyrn

O fewn y lleoliadau a nodwyd ar y cynlluniau, sydd ar gael i'w gweld yn Neuadd y Sir, Brynbuga neu ar-lein drwy http://www.monmouthshire.gov.uk/public-consultation-traffic

Gellir archwilio manylion pellach am y Gorchymyn arfaethedig, sy'n cynnwys copi o'r Gorchymyn drafft, cynlluniau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, drwy drefnu apwyntiad yn Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA (gellir trefnu apwyntiadau drwy e-bostio traffic@monmouthshire.gov.uk) neu drwy ffonio 01633 644644 neu ar-lein drwy fynd i http://www.monmouthshire.gov.uk/public-consultation-traffic a gellir cael mynediad i wneud hyn drwy sganio'r cod QR isod.

Dylid gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn **erbyn 5pm ddydd Mercher 9fed Gorffennaf 2025** gan naill ai:

- Anfon llythyr ysgrifenedig, yn nodi'r sail y gwneir y sylwadau arnynt, wedi'i gyfeirio at:
- Yr Adran Draffig, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA;

- Neu drwy sganio'r cod QR isod a dewis “Sut i wneud sylwadau ar GRhT arfaethedig”, lle gellir cael mynediad at y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

**Dyddiad: 18fed Mehefin 2025**

**Carl Touhig**
**Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth**
**Cyngor Sir Fynwy**